



Cell Genedlaethol Diogelu Iechyd

Dal ati i Ddysgu

Canllawiau i helpu olrhain cysylltiadau mewn lleoliadau addysg a gofal plant

1 Cyflwyniad

Dylid darllen y nodyn cyfarwyddyd hwn ar y cyd â'r canllawiau perthnasol a ddatblygwyd ar gyfer lleoliadau gofal plant, ysgolion, lleoliadau addysg bellach ac addysg uwch.

Ei fwriad yw helpu egluro'r rôl bwysig y gall lleoliadau ei chwarae wrth gynorthwyo swyddogion olrhain cysylltiadau i ymgymryd â'u rôl wrth bennu cysylltiadau achos positif. Y nod cyffredinol yw lleihau nifer y cysylltiadau sy'n deillio o achos positif yn ddiogel fel y gallwn wneud y gorau o'r amser y gall plant a phobl ifanc gael mynediad at lleoliadau gofal plant ac addysg.

Ni fydd yn ddull gweithredu sy'n addas i bawb a bydd angen i leoliadau benderfynu sut y gallan nhw roi'r canllawiau hyn ar waith yn y ffordd fwyaf effeithiol i adlewyrchu eu cyd-destun a'u hamgylchiadau lleol. Drwy gydol y canllawiau hyn bydd rhai elfennau'n fwy perthnasol mewn gwahanol fathau o leoliadau e.e. ysgolion, prifysgolion ac ati a bydd angen eu hystyried ym mhob cyd-destun.

Mae'r ffocws ar leoliadau yn darparu gwybodaeth i helpu timau Profi, Olrhain, Diogelu i benderfynu pwy sydd angen hunanyngysu. Nid oes disgwyl i staff yn unrhyw un o'r lleoliadau hyn roi cadarnhad llwyr ynghylch pa blant a phobl ifanc a allai fod wedi dod i gysylltiad ag achos positif. Fodd bynnag, mae'n bwysig cymryd camau i allu lleihau cysylltiadau yn y ffyrdd a ddisgrifir isod.

Trefnir y timau Profi, Olrhain, Diogelu ar sail ranbarthol fel partneriaeth rhwng Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol. Fel arfer, y timau rhanbarthol fydd yn arwain trafodaethau rhwng Profi, Olrhain, Diogelu a lleoliadau addysg a gofal plant. Mae'r rhain yn cynnwys cynrychiolaeth o Awdurdodau Lleol ymhlith eraill. Ar hyn o bryd, mae'r timau rhanbarthol hyn yn gweithio saith diwrnod yr wythnos rhwng 8am ac 8pm, mae'n bosibl y bydd angen iddyn nhw gysylltu â lleoliadau yn ystod yr oriau hyn.

2 Cefndir

Mae ysgolion a lleoliadau addysgol a gofal plant eraill, Awdurdodau Lleol a Thimau Profi, Olrhain, Diogelu rhanbarthol wedi gwneud llawer iawn o waith gyda chefnogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i alluogi plant a phobl ifanc i ddychwelyd i addysg a gofal plant.

Mae gwaith wedi ei wneud i sicrhau bod lleoliadau mor COVID Ddiogel â phosibl er mwyn helpu lleihau'r tebygolrwydd o drosglwyddo'r feirws. Mae dychwelyd i'r ysgol a gofal plant

wedi rhoi cyfle i brofi'r mesurau hyn yn ymarferol ac fel y gellid disgwyl, mae cyfleoedd yn cael eu nodi i egluro, cryfhau a gwella canllawiau a mesurau yn y lleoliadau hyn.

Gan ddefnyddio profiad y rhai sy'n gweithio gyda lleoliadau addysg a gofal plant fel y Timau Profi, Orlhain, Diogelu a'r Timau Diogelu Iechyd a myfyrio ar adborth gan randdeiliaid allweddol, mae'r canllawiau hyn yn ceisio egluro'r mesurau y gall lleoliadau eu cymryd i helpu lleihau nifer y plant, dysgwyr ac aelodau'r staff y mae angen iddyn nhw hunanynysu yn dilyn achos positif i isafswm. Mae nod cyffredin i gefnogi cynifer o blant a dysgwyr â phosibl i aros mewn gofal plant, ysgol, addysg bellach neu uwch ac i gadw pobl yn ddiogel.

3 Cadw Pobl yn Ddiogel

Mae dau ddull sylfaenol o leihau lledaeniad heintiau mewn poblogaeth..

- **Atal:** mesurau i stopio trosglwyddo os bydd achos yn mynychu'r lleoliad - mae hyn yn cynnwys ymbellhau cymdeithasol, lleihau cymysgu diangen, hylendid dwylo ac anadlol
- **Ymyrraeth Gynnar:** mesurau i atal trosglwyddo eilaidd os bydd cysylltiadau'n mynd ymlaen i ddatblygu'r salwch - gan gynnwys ynysu a phrofi pobl â symptomau, nodi ac ynysu cysylltiadau agos

Dylai atal fod yn brif nod yr holl fesurau rheoli. Mae profiad hyd yma yn awgrymu bod mesurau atal wedi cael eu deall yn dda a'u gweithredu'n eang ar draws lleoliadau addysgol. Fodd bynnag, credwn y gallwn wneud mwy i gefnogi ymyrraeth gynnar a chynyddu nifer y dysgwyr a staff sy'n gallu parhau'n ddiogel mewn lleoliad.

3.1 Rolau a Chyfrifoldebau

Mae gan blant, dysgwyr a theuluoedd; arweinwyr a staff addysg a gofal plant; Timau Profi, Orlhain, Diogelu rhanbarthol a gweithwyr iechyd cyhoeddus proffesiynol rôl i'w chwarae wrth gefnogi camau prydol mewn ymateb i achos positif.

Mae gan *blant, dysgwyr, teuluoedd a staff* gyfrifoldeb i hunanynysu os ydyn nhw neu rywun maen nhw'n rhannu tŷ ag ef/hi yn datblygu unrhyw symptomau COVID-19 (tymheredd uchel, peswch parhaus newydd, colli synnwyr blasu neu arogli). Dylai'r rhai sydd â symptomau gael prawf. Os na ellir eu profi neu os ydyn nhw'n profi'n bositif bydd angen i unigolion symptomatig hunanynysu am o leiaf 10 diwrnod o ddechrau'r symptomau ac aelodau o'u cartref am 14 diwrnod.

Mae gan Arweinwyr Gofal Plant, Ysgolion, Addysg Bellach ac Uwch dri chyfrifoldeb allweddol.

- Eu prif gyfrifoldeb yw trefnu'r broses o ddarparu dysgu o ddydd i ddydd mewn ffordd sy'n cyfyngu ar faint o gyswllt sydd rhwng staff; staff a phlant/dysgwyr a rhwng plant/dysgwyr (Atal). Ar gyfer sefydliadau addysg uwch mae'r lleoliad hefyd yn cynnwys llety.
- Yr ail gyfrifoldeb allweddol yw sicrhau bod ganddyn nhw wybodaeth a fydd yn helpu'r Timau Profi, Orlhain, Diogelu i benderfynu pwy sy'n gyswllt agos ac felly bod angen iddyn nhw hunanynysu. Fel rhan o hyn disgwylir y bydd arweinwyr gofal plant, ysgolion, addysg bellach ac uwch yn cyfathrebu â rhieni /gofalwyr a dysgwyr os oes gofyn i grwpiau mawr o blant/dysgwyr hunanynysu o ganlyniad i achos mewn lleoliad. Nid cyfrifoldeb arweinwyr gofal plant, ysgolion, addysg bellach ac uwch yw gwneud penderfyniadau ynghylch a oes angen i unigolion ynysu.

- Y cyfrifoldeb terfynol yw sicrhau bod gan eu sefydliad y prosesau a'r polisiâu ar waith i sicrhau bod y rhai y mae'n ofynnol iddyn nhw hunanynysu yn gwneud hynny (gan gynnwys cofnodi symptomau fel rhan o absenoldebau oherwydd salwch, a sicrhau nad yw'r rhai y mae angen iddyn nhw hunanynysu yn dod yn ôl cyn yr amser priodol heb gadarnhad nad oes angen hunanynysu mwyach).

Cydnabyddir y gall arweinwyr gofal plant, ysgolion, addysg bellach ac uwch ddod yn ymwybodol o achosion sy'n gysylltiedig â'u sefydliad cyn i'r gwaith olrhain cyswllt gael ei wneud yn ffurfiol, ac efallai y bydd angen cymryd camau rhagofalus cychwynnol.

Mae'r **Timau Profi, Olrhain, Diogelu** yn gyfrifol am gysylltu â phob achos positif a chasglu gwybodaeth am eu cysylltiadau agos o fewn a thu allan i'r lleoliad addysg neu ofal plant. Bydd hyn yn cynnwys cysylltu â gweithleoedd, cartrefi a lleoliadau eraill lle mae'r unigolyn hwnnw wedi treulio amser. Bydd y tîm Profi, Olrhain, Diogelu yn casglu gwybodaeth am ble mae'r unigolyn hwnnw wedi treulio amser a gyda phwy. Eu rôl nhw yw nodi pa unigolion sy'n bodloni'r diffiniad o gyswllt agos ac felly bod angen iddyn nhw hunanynysu. Byddan nhw'n gweithio gyda'r lleoliad i gytuno ar gyfathrebu â'r rhai y mae'n ofynnol iddyn nhw hunanynysu a'r rhai a all ddychwelyd i'r lleoliad.

Mae **lechyd Cyhoeddus Cymru** yn gyfrifol am ddarparu canllawiau i gefnogi'r timau Profi, Olrhain, Diogelu a rhoi cyngor arbenigol i'r timau hynny i helpu datrys ymholiadau mwy cymhleth.

4 Trefniadau Gofal Plant, Ysgolion, Addysg bellach ac Uwch i Atal Trosglwyddo a Chefnogi Ymyrraeth Gynnar

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu Canllawiau Gweithredol ar gyfer gofal plant, ysgolion, addysg bellach ac uwch sy'n cael eu diweddarau'n rheolaidd.

4.1 Ymbellhau Cymdeithasol (Atal)

Mae ymbellhau cymdeithasol yn un o'r mesurau allweddol i atal trosglwyddo. Mae ymbellhau cymdeithasol yn golygu cadw 2m ar wahân i berson arall a lleihau nifer y bobl mae unigolion yn cael unrhyw gysylltiad â nhw.

4.1.1 Blynyddoedd Cynnar, gofal plant ac ysgolion cynradd

Mewn lleoliadau **blynyddoedd cynnar a gofal plant** ac mewn **ysgolion cynradd** nid yw'n ofynnol i **blant** ymbellhau'n gymdeithasol. Y rheswm am hyn yw bod y dystiolaeth bresennol yn awgrymu bod trosglwyddo o fewn y grwpiau hyn yn is a bod y risg o'r haint hefyd yn isel. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu nad yw cyfyngiadau eraill ar leihau cysylltiadau bellach yn berthnasol i blant o dan 11 oed. Serch hynny, dylai lleoliadau wneud popeth o fewn eu gallu i leihau cymysgu rhwng dosbarthiadau neu grwpiau (adran 4.2).

Mewn lleoliadau **blynyddoedd cynnar a gofal plant** ac mewn **ysgolion cynradd**, rhaid i staff ymbellhau'n gymdeithasol bob amser.

Mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar a gofal plant ac mewn ysgolion cynradd cydnabyddir y gallai ymbellhau cymdeithasol rhwng staff a phlant fod yn anoddach, yn enwedig yn y cyfnod sylfaen neu ofal plant. Er mwyn lleihau'r risg dylai fod gan grwpiau unigol athro neu gynorthwydd addysgu neu aelod o staff dynodedig. Dylai aelodau eraill o staff gadw pellter o 2m oddi wrth y plant lle bynnag y bo modd.

Bydd y mesurau hyn, os cânt eu dilyn, yn golygu na ddylai fod angen i unrhyw aelodau eraill o staff hunanynysu oherwydd prawf positif aelod arall o staff.

4.1.2 Addysg Uwchradd a Thu Hwnt

Mae'r dystiolaeth wyddonol bresennol yn awgrymu bod risg gynyddol o drosglwyddo rhwng unigolion ar ôl oedran ysgol gynradd hyd at fod yn oedolion. Fodd bynnag, mae tystiolaeth dda bod y risg o'r haint yn isel yn y grwpiau oedran hyn.

Mewn **ysgolion uwchradd, addysg bellach ac uwch** dylid ymarfer ymbellhau cymdeithasol rhwng **dysgwyr** lle bynnag y bo modd. Yr hynaf yw'r dysgwyr, y mwyaf yw'r pwysigrwydd.

Mewn **ysgolion uwchradd, addysg bellach ac uwch** dylai ymbellhau cymdeithasol bob amser gael ei ymarfer rhwng **yr holl staff**. Os oes amgylchiadau lle nad yw hyn yn bosibl, mae angen eu nodi'n glir fel rhan o'r broses asesu risg ynghyd â: y rhesymau pam: y mesurau lliniaru sy'n cael eu rhoi ar waith; a'u heffaith arfaethedig.

Mewn **ysgolion uwchradd, addysg bellach ac uwch** dylai ymbellhau cymdeithasol fod yn nod rhwng **staff a dysgwyr** bob amser. Mewn amgylchiadau eithriadol lle nad yw hyn yn bosibl e.e. wrth weithio gyda dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, dylid cymryd camau rheoli ychwanegol, a nodir yn

<https://llyw.cymru/canllawiau-ar-gyfer-cefnogi-dysgwyr-syn-agored-i-niwed-dan-anfantais>.

Bydd y mesurau hyn yn sicrhau, os caiff dysgwr brawf positif, y gallwn leihau nifer y dysgwyr eraill y mae angen iddyn nhw hunanynysu fel cyswllt agos.

Bydd y mesurau hyn, os cânt eu dilyn, yn sicrhau na fydd angen i unrhyw aelodau eraill o staff hunanynysu oherwydd prawf positif aelod arall o staff.

4.2 Lleihau Cymysgu (Atal a Lleihau effaith ymyrraeth gynnar)

Yn ogystal â chadw 2m oddi wrth berson arall, lle y bo'n bosibl, gallwn leihau'r risg o drosglwyddo a'r angen i ynysu fel cyswllt agos drwy leihau nifer yr unigolion y mae gennym ni gysylltiad â nhw, ac felly'r siawns o ddod i gysylltiad ag achos heintus. Bydd lleihau cymysgu hefyd yn cyfyngu ar nifer y bobl y mae angen iddyn nhw hunanynysu os bydd achos positif.

Mewn lleoliad addysgol neu ofal plant gellir cyflawni hyn drwy amrywiaeth o fesurau fel defnyddio 'grwpiau cyswllt' neu 'swigod'. Dylai'r rhain fod yn berthnasol i bob lleoliad a phob grŵp oedran.

4.2.1 Grwpiau Cyswllt (lefel 1)

Gall grwpiau cyswllt fod yn effeithiol wrth leihau nifer y cysylltiadau a lleihau cymysgu. Mewn llawer o leoliadau mae'r rhain wedi cael eu mabwysiadu mewn grwpiau cyson mewn lleoliadau gofal plant, grwpiau blwyddyn mewn ysgol neu grwpiau astudio neu grwpiau preswyl mewn addysg bellach ac uwch.

Mae grwpiau cyswllt yn effeithiol o ran lleihau'r tebygolrwydd y bydd gwahanol ddysgwyr yn cyfarfod.

Gellir eu defnyddio i:

- Ddynodi rhannau o'r adeilad sydd at eu defnydd nhw yn unig e.e. ystafelloedd addysgu, toiledau, manau awyr agored ar gyfer amser egwyl, mynedfeydd i adeiladau
- Dynodi ardaloedd arbenigol i'w defnyddio ar adegau penodol gan y grŵp hwnnw e.e. ardaloedd addysgu arbenigol fel labordai neu ystafelloedd technoleg, neuaddau bwyta
- Amseroedd cyrraedd a gadael neu amseroedd egwyl ar wahân
- Dynodi staff i weithio gyda'r grwpiau hynny yn unig

4.2.2 Grwpiau Cyswllt (lefel 2)

Os na wneir ymdrechion pellach i leihau cymysgu a bod achos positif yn cael ei nodi yn y lleoliad, gall olygu y bydd angen i'r tîm Profi, Orlhain, Diogelu ofyn i nifer fawr iawn o blant neu ddysgwyr hunanynysu. **Am y rheswm hwn, byddem yn argymhell ail lefel o grwpio, yn enwedig pan fo'r grŵp lefel 1 yn fawr e.e. blwyddyn gyfan.**

Mewn lleoliadau **gofal plant**, gall niferoedd grŵp o dan lefel 1 fod yn gymharol fach eisoes. Fodd bynnag, ar gyfer lleoliadau â grwpiau mwy neu ar gyfer y tu allan i'r ysgol, grwpio plant o'r un oedran neu o'r un ysgol fyddai hyn.

Mewn **ysgolion** cynradd ac uwchradd, grŵp dosbarth yw hwn yn aml, yn enwedig i ddysgwyr hyd at a gan gynnwys blwyddyn 8. Gellid nodi grwpiau cyswllt hefyd at ddibenion penodol fel y rhai sy'n teithio ar drafnidiaeth benodedig i'r ysgol. Mewn lleoliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar mae hyn yn debygol o fod yn seiliedig ar grwpiau oedran.

Er mwyn lleihau maint y grŵp, gall fod yn dderbyniol i ddysgwyr fod yn rhan o fwy nag un grŵp cyswllt ar y lefel hon (e.e. rhan o grŵp trafnidiaeth, a grŵp dosbarth). Ar gyfer disgyblion hŷn sy'n astudio pynciau diffiniedig gall hyn olygu eu bod yn rhan o sawl grŵp, ond dylid ymdrechu i gyfyngu ar gymysgu gymaint â phosibl. Pan fydd unigolion o sawl grŵp yn dod at ei gilydd dylid cymryd camau i leihau cymysgu rhwng aelodau o wahanol grwpiau.

Mewn **addysg bellach neu uwch**, grwpiau astudio a grwpiau preswyl ddylai hyn fod.

Dylid annog y grwpiau hyn i beidio â chymysgu â grwpiau eraill cyn belled ag y bo modd, er enghraifft drwy gael ardaloedd dynodedig yn y neuadd fwyta, yr ystafelloedd cyffredin, a'r cyfleusterau a rennir mewn llety preswyl.

Mewn ysgolion, lle bynnag y bo'n bosibl gall goruchwyliaeth o amgylch manau a rennir fel toiledau ysgol a manau bwyta yn ystod amseroedd egwyl helpu hyrwyddo ymbellhau cymdeithasol a lleihau cymysgu. Mae golchi dwylo a diheintydd dwylo yn arbennig o bwysig yn yr ardaloedd hyn.

Mewn addysg bellach ac addysg uwch mae'n bwysig annog dysgwyr i beidio â chymysgu ag eraill y tu allan i'w grŵp astudio tra yn y lleoliad, oni bai eu bod yn ymbellhau'n gymdeithasol. Hefyd, mewn lleoliadau prifysgol, nid yw myfyrwyr yn gallu ymgynnull yn gymdeithasol dan do gydag unrhyw unigolyn y tu allan i'w grŵp cyswllt cartref neu breswyl. Rhaid i brifysgolion fod â mesurau ar waith i sicrhau bod myfyrwyr a staff yn cydymffurfio â'r mesurau hyn.

Cydnabyddir y gall dysgwyr fod yn rhan o fwy nag un grŵp er enghraifft, gofal plant ac ysgol neu ysgol a thrafnidiaeth ysgol, ond gall hyn barhau i helpu'r tîmau Profi, Orlhain, Diogelu i leihau nifer y dysgwyr y mae angen iddyn nhw hunanynysu.

4.2.3 Grwpiau Cyswllt – Lefel 3

Mae gan y Timau Profi, Olrhain, Diogelu ddiffiniad caeth o gyswllt agos.

Bydd pobl yn cael eu hystyried fel cysylltiadau os ydyn nhw wedi bod mewn cysylltiad agos â'r unigolyn a brofodd yn bositif hyd at ddau ddiwrnod cyn iddyn nhw arddangos symptomau am y tro cyntaf ac am ddeg diwrnod ar ôl hynny a:

- Maen nhw wedi bod o fewn 1 metr i rywun sydd wedi profi'n bositif ac wedi cael ei besychu arno, wedi cael sgwrs wyneb yn wyneb, wedi cael cyswllt corfforol croen-i-groen, neu wedi bod mewn mathau eraill o gyswllt o fewn 1 metr am 1 funud neu fwy

NEU

- Maen nhw wedi bod o fewn 2 fetr i rywun sydd wedi profi'n bositif am fwy na 15 munud

NEU

- Maen nhw wedi teithio mewn cerbyd bach gyda rhywun sydd wedi profi'n bositif

NEU

- Yn rhywun ar eu haelwyd (bobl sy'n byw gyda nhw) neu maen nhw'n rhannu cyfleusterau â nhw fel ystafell ymolchi neu gegin

Nid yw pobl sy'n gweithio mewn rolau proffesiynol sydd wedi defnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) yn gywir neu sy'n gweithio y tu ôl i sgrin neu ymraniad priodol (er enghraifft sgrin Perspex) wedi eu cynnwys yn hyn. Nid yw gorchuddion wyneb yn cael eu hystyried fel PPE ac felly nid yw gwisgo gorchudd wyneb yn effeithio ar p'un a ydych yn gyswllt agos.

Dim ond ar gyfer plant ysgol hŷn, addysg bellach neu uwch y bydd asesiad unigol ar y lefel hon yn bosibl (lle mae dysgwyr yn hŷn ac yn fwy abl i adrodd yn ddibynadwy gyda phwy maen nhw wedi cael cyswllt). Fodd bynnag, gall asesu lywio penderfyniadau lle mae grwpiau cyswllt niferus wedi dod at ei gilydd.

Mewn lleoliadau addysg a gofal plant, bydd hyn yn golygu, lle y cynlluniwyd yn ofalus, y gallwn leihau nifer y bobl a fydd yn cael eu hystyried yn gyswllt agos.

- **Symud o gwmpas adeiladau.** Bydd defnyddio systemau un ffordd, annog llif e.e. annog pobl i beidio â sgwrsio mewn ysgol wrth symud rhwng ystafelloedd, yn golygu na fydd unigolion mewn cysylltiad agos ac felly na fydd angen iddyn nhw ynysu.
- **Seddi dynodedig.** Bydd dyrannu sedd ddynodedig i bob dysgwr mewn ystafell ddosbarth neu ystafell seminar yn ei gwneud yn hawdd adnabod y rhai sydd o fewn 2 fetr.
- **Grwpiau gwaith.** Lle bo'n briodol ac yn angenrheidiol i grŵp gwaith ddigwydd lle bynnag y bo modd, dylid defnyddio grwpiau safonol ar gyfer pob pwnc, gellid newid hyn bob tymor neu semester i gynnig amrywiaeth ar ôl seibiant.
- **Trafnidiaeth bwrpasol.** Dylai'r un grŵp o ddysgwyr ddefnyddio trafndiaeth bob dydd. Dylid ystyried dyrannu seddi dynodedig i ddysgwyr a'u grwpio drwy grŵp dosbarth/lleoliad ar y cerbyd er mwyn lleihau cymysgu.
- Dynodi cyfleusterau a rennir yn glir mewn neuaddau traddodiadol, bydd cyfleusterau'n cael eu dyrannu i grwpiau "cyswllt" penodol er mwyn, i bob pwrpas, efelychu'r math o "aelwyd" sy'n bodoli mewn llety o arddull "fflat". Dylid cyfleu'n glir hefyd bod cyfleusterau at ddefnydd unigryw'r rhai y dyrennir iddyn nhw ac na ddylai unrhyw fyfyrwr arall ddefnyddio'r cyfleusterau hynny. Dylai arwyddion clir wneud myfyrwyr yn ymwybodol o hyn.

Bydd yr holl fesurau hyn yn golygu y gallai fod yn bosibl lleihau'r niferoedd y mae angen iddyn nhw hunanynysu, yn hytrach nag ynysu'r grŵp Lefel 1 cyfan.

Dim ond mewn cydweithrediad rhwng timau Profi, Orlhain, Diogelu a lleoliadau gofal plant, ysgolion, addysg bellach ac uwch y gellir gwneud yr asesiadau hyn, ond y timau Profi, Orlhain, Diogelu sy'n penderfynu yn y pen draw pwy sy'n gyswllt ac y mae angen iddyn nhw hunanynysu.

5 Cadw Cofnodion

Bydd y broses olrhain cyswllt yn haws i leoliadau gofal plant ac addysg a'r tîm Profi, Orlhain, Diogelu os yw cofnodion da yn cael eu cadw ac ar gael yn rhwydd.

Bydd hyn yn cynnwys:

- Pa blant a dysgwyr sydd mewn grwpiau cyswllt mwy ar lefel 1
- Pa blant a dysgwyr sydd mewn grwpiau dosbarth neu astudio neu grwpiau preswyl ar lefel 2
- Pwy sy'n eistedd ym mhob ardal mewn ystafell ddosbarth neu ar drafnidiaeth. Gellid cynorthwyo'r broses hon drwy dynnu llun wedi'i stampio ag amser a dyddiad ar ddechrau pob sesiwn neu pan fydd y drafnidiaeth yn cyrraedd y lleoliad cyn i'r dysgwyr adael. Yn ddelfrydol, dylai hyn fod ar ddyfais a ddarperir gan y lleoliad a'i dinistrio ar ôl pythefnos.
- Gofyn i fyfyrwyr ddefnyddio Ap Covid y GIG.
- Sicrhau bod manylion olrhain cyswllt yn cael eu cofnodi mewn rhannau eraill o'r brifysgol fel caffis, undebau myfyrwyr a chyfleusterau chwaraeon.

5.1 Gwybodaeth ar gyfer Profi, Orlhain, Diogelu

Ar ôl cadarnhau achos positif sydd wedi bod yn y lleoliad yn ystod y cyfnod heintus, bydd y tîm Profi, Orlhain, Diogelu yn cysylltu. Cofiwch mai eu llinell ymholi gyntaf yn dilyn canlyniad prawf positif fydd siarad â'r achos a/neu rieni /gofalwyr. Efallai y bydd yn cymryd ychydig o amser iddyn nhw gasglu'r wybodaeth briodol a'i rhoi i'r tîm rhanbarthol iddyn nhw ei thrafod gyda'r lleoliad. Gall arweinwyr gofal plant, ysgolion, addysg bellach ac uwch ddod yn ymwybodol o'r achos positif cyn i'r broses olrhain cyswllt ddechrau, er enghraifft, drwy riant plentyn sydd wedi profi'n positif.

O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yn ddefnyddiol i chi gael cynllun clir ar gyfer yr ymateb cychwynnol.

Ar gyfer lleoliadau gofal plant, mae hyn yn debygol o gynnwys nodi grŵp cyswllt yr achos positif. Gall lleoliadau hefyd hysbysu rhieni /gofalwyr bod achos positif yn cael ei amau yng ngrŵp eu plentyn ac y bydd cyngor pellach gan Profi, Orlhain, Diogelu yn dilyn ynghylch pwy ddylai hunanynysu.

Ar gyfer Cam 1 ysgolion, addysg bellach ac uwch, gallai hyn gynnwys hunanynysu cychwynnol i grŵp cyswllt Lefel 1 am gyfnod byr, mae hyn yn fwyaf tebygol o ddilyn prawf positif plentyn neu ddysgwyr. Ni ddylai prawf positif aelod o staff arwain at yr angen i nifer fawr o staff a dysgwyr hunanynysu mewn ysgolion uwchradd, addysg bellach neu addysg uwch. Gall cynllunio ar gyfer sut y caiff hyn ei wneud a sefydlu mecanweithiau cyfathrebu syml e.e. drwy'r 'parentmail', cyfryngau cymdeithasol, neu gyfathrebu â staff helpu lleihau'r llwyth gwaith.

Ar ôl cymryd camau cychwynnol bydd angen i chi gasglu gwybodaeth i'w rhannu gyda'r tîm Profi, Orlhain, Diogelu. Dylai hyn gynnwys:

- Y grwpiau cyswllt mae'r dysgwr yn perthyn iddyn nhw a'u gwybodaeth cyswllt
- Manylion y mesurau y mae'r lleoliad wedi eu cymryd i gyfyngu ar gymysgu rhwng grwpiau cyswllt ac o fewn grwpiau mwy (lefel 1) e.e. mesurau lefel 2. Mae hyn yn cynnwys staff, plant a dysgwyr.
- Lle mae gwybodaeth fanylach ar gael am ddyrannu desgiau/seddi ac ati (mesurau lefel 3) dylai hyn fod ar gael hefyd
- Gwybodaeth am drefnau glanhau; cymorth ar gyfer golchi dwylo; defnyddio PPE pan fo'n briodol
- Gwybodaeth am fesurau ychwanegol neu amgylchiadau arbennig e.e. dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Bydd y tîm Profi, Orlhain, Diogelu yn gweithio gyda'r lleoliad ar gam 2 i gadarnhau'r cysylltiadau agos ac i hysbysu unrhyw ddysgwyr sy'n gallu dychwelyd i'r ysgol /addysg bellach neu uwch ar ôl hunanynysu cam 1.

6 Cymorth

Dylai fod gan bob lleoliad gynllun cytûn ar gyfer ymateb i achos o fewn ei sefydliad.

Dylai'r cynllun hwn fanylu ar y camau gweithredu a'r asesiadau cychwynnol sydd eu hangen ynghyd â gohebiaeth â'r rhai yr effeithir arnyn nhw. O ran sefydlu trefniadau lleol, wrth ddatblygu'r cynllun hwn, efallai y bydd angen cynnal trafodaethau gydag eraill hefyd. Er enghraifft, bydd angen i ysgolion drafod gyda'u hawdurdod lleol y trefniadau sydd i'w rhoi ar waith y tu allan i oriau ysgol.

Os oes angen cymorth ychwanegol dylai ysgolion a lleoliadadau gofal plant gysylltu â'u hwdurdod addysg lleol yn y lle cyntaf. Dylai Tîmau Profi, Orlhain, Diogelu Rhanbarthol sicrhau bod lleoliadau Addysg Bellach a Phrifysgolion yn gwybod pwy i gysylltu â nhw am gyngor.